Ymchwil y Gronfa Loteri Fawr
Rhifyn 50

Crynodeb gwerthuso Miliynau'r Bobl

Miliynau'r Bobl: Canfyddiadau'r gwerthusiad terfynol

Côd stoc	BIG-PMFinalEval
ISSN (Print)	1744-4756
ISSN (Ar-lein)	1744-4764
Ysgrifennwyd gan	Hilary Leavy
Ffotograffwyr	Mark Campbell, Shaun Fitzpatrick, Jim Hodson, Martin Jenkinson, Caroline Mardon, Simon McComb, Kate Peters

Copïau pellach ar gael o:

E-bost	enquiries@biglotteryfund.org.uk
Ffôn	0845 4 10 20 30
Ffôn testun	0845 6 02 16 59
Ein gwefan	www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad.

Rydym yn poeni am yr amgylchedd
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein gweledigaeth
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein Gwerthoedd
Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

© Cronfa Loteri Fawr, Tachwedd 2008

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

Crynodeb gweithredol

Mae Miliynau'r Bobl yn rhaglen grantiau sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd leisio eu barn ar sut y mae arian y Loteri yn cael ei wario mewn cymunedau lleol ar draws y DU.

Ym mis Medi 2007 fe wnaethom benodi Leisure Futures Ltd a Cranbrook Films i ymgymryd â gwerthusiad o raglen Miliynau'r Bobl. Y crynodeb hwn yw'n dehongliad ni o'r adroddiad gwerthuso sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cronfaloterifawr.org.uk

- Ariannwyd lledaeniad da o brosiectau trwy'r rhaglen yn 2007, yn ymdrin â phob un o themâu Miliynau'r Bobl.
- Y ffactor pwysicaf wrth bennu llwyddiant y prosiectau wrth ennill cystadleuaeth Miliynau'r Bobl oedd eu hymgyrch gyhoeddusrwydd a'r gallu i annog cefnogwyr i bleidleisio dros y prosiect.
- Mae nifer y pleidleisiau a fwriwyd wedi cynyddu'n sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn, o 180,000 yn 2005 i 553,000 yn 2007.
- Nifer cyfartalog y pleidleisiau a fwriwyd fesul prosiect buddugol oedd ychydig yn llai na 5,400.
- Amcangyfrifir bod 65 i 70 y cant o bleidleisiau ffôn wedi'u bwrw gan gefnogwyr, o'u cymharu â 30 i 35 y cant gan y cyhoedd a oedd yn gwylio a bleidleisiodd ar ôl gwylio ffilm am y prosiect yn ystod newyddion rhanbarthol ITV.

Cyflwyniad

- Roedd y buddion o fod yn gysylltiedig â'r rhaglen ar gyfer ymgeiswyr yn cynnwys cyhoeddusrwydd am ddim sydd wedi helpu i godi proffil y prosiectau ymhlith y cyhoedd a galluogi iddynt ddenu arian neu gefnogaeth newydd. Mae'r broses wedi cael effaith bositif hefyd ar gyswllt ac ysbryd cymunedol yn lleol.
- Ceir canfyddiad ymhlith prosiectau a budd-ddeiliaid bod gwell siawns o ennill gan geisiadau o drefi na phrosiectau mewn cymunedau gwledig sy'n denau eu poblogaeth, er nid yw hyn yn wir.
- Nid oes unrhyw batrwm penodol yn nhermau mathau'r prosiectau sy'n ennill, ac eithrio ysgolion a oedd yn anghymesur o lwyddiannus yn 2007.
- Dywedwyd bod pob rhan o'r broses gystadlu, o'r ffurflen ymgeisio hyd at ddarlledu ffilmiau'r prosiectau ar ddiwrnod y bleidlais, yn 'dda' ar draws y sampl o gydlynwyr prosiect a holwyd.
- Teimlodd dros 80 y cant o'r ymatebwyr o'r sampl prosiectau a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn 2007 bod annog cefnogwyr a'r cyhoedd i bleidleisio ym Miliynau'r Bobl yn gwneud gwahaniaeth i bwy a oedd yn ennill dyfarniad.

Yn 2005 fe wnaeth y Gronfa Loteri Fawr uno â ITV i lansio Miliynau'r Bobl. Rhoddodd y rhaglen gyfle i wylwyr ITV ar draws y wlad bleidleisio dros brosiectau yn eu cymuned er mwyn ennill grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae ystod amrywiol o brosiectau wedi'u hariannu, gan gynnwys parciau chwarae, ardaloedd chwarae synhwyraidd, adfywio coetir a hyd yn oed cerfluniau sain. Ers hynny mae 229 o ddyfarniadau wedi'u dosbarthu, yn gwneud cyfanswm o £13.6 miliwn.

Mae rhaglen Miliynau'r Bobl yn ariannu ystod eang o brosiectau cymunedol (yn wledig ac yn drefol) sy'n anelu at gyflawni un neu'n fwy o'r isod:

- gwneud yr amgylchedd lleol yn fwy glân, diogel neu wyrdd
- gwella'r amgylchedd naturiol yn lleol
- gwella cynllun, ymddangosiad neu hygyrchedd amwynderau lleol
- darparu cyfleoedd neu gyfleusterau ar gyfer mwynhau'r amgylchedd lleol neu amwynderau lleol.

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr ddiddordeb hefyd mewn ariannu prosiectau:

- i annog pobl i chwarae rhan yn eu cymuned leol
- sy'n helpu'r bobl fwyaf anghenus
- sy'n wreiddiol ac yn llawn dychymyg.

Nod y gwerthusiad

Nod y gwerthusiad oedd asesu effaith cyswllt y cyhoedd â Miliynau'r Bobl ar benderfyniadau grant ac ar ragolygon, gweithrediad ac effeithlonrwydd y prosiectau a oedd yn cyfranogi.

Prif ffocws y gwerthusiad oedd dylanwadu ar gyswllt y cyhoedd a chanlyniadau hynny ar y rhaglen yn gyffredinol ac ar weithrediad ac effaith prosiectau unigol.

Fe wnaeth y gwerthuswyr ymgymryd â

- chyfweliadau rhannol strwythuredig gyda staff y Gronfa Loteri Fawr
- cyfweliadau rhannol strwythuredig gyda phwyllgorau rhanbarthol (21 'aelodau'r cyhoedd', pedwar Pennaeth Newyddion ITV a phedwar o arbenigwyr adfywio)
- cyfweliadau ffôn 'cyn y bleidlais' rhannol strwythuredig cyn diwrnod y bleidlais, cyfweliadau ffôn dilynol ar ôl y bleidlais ac ymweliadau â nifer fach o'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol, bob un o brosiectau 2007
- cyfweliadau ffôn rhannol strwythuredig gyda 10 o brosiectau a ddaeth yn ail ac ymweliadau â phedwar o brosiectau a ddaeth yn ail yn 2006
- cyfweliadau ffôn rhannol strwythuredig gyda 10 o brosiectau buddugol ac ymweliadau â thri phrosiect buddugol o 2005
- dadansoddi data'r rhaglen
- dadansoddi pleidleisiau.

Cafodd y fethodoleg ei chynllunio i sicrhau bod pob rhanbarth ITV yn y DU yn cael eu cynnwys (ac eithrio Dyffryn Tafwys nad oeddynt yn cymryd rhan yn y rhaglen yn 2005 a 2006). Holwyd o leiaf un aelod o'r cyhoedd o bob pwyllgor rhanbarthol (gan gynnwys y rheini yn rhanbarthau ITV yr Alban, Cymru ac Ulster). Am fanylion pellach ar y fethodoleg gweler yr adroddiad llawn ar ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Barn y prosiectau

Fe wnaeth y gwerthuswyr holi cyfanswm o 63 prosiect ar draws y tair blynedd yr oedd y rhaglen wedi bodoli.

> Fe dynnodd prosiect Miliynau'r Bobl yr Ymddiriedolwyr ynghyd a rhoi synnwyr diben i ni. Fe wnaeth ychwanegu at ein gwirfoddolwyr a'n helpu gydag ysbryd y tîm. Hefyd, ers i ni ennill mae pobl yn edrych arnom mewn ffordd fwy positif. Er enghraifft, mae sefydliad yr ydym yn gweithio gydag ef wedi dod yn bartner i ni, gan ddarparu gwasanaethau am gost i ni wrth iddynt hwy gael buddion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.
> **Prosiect celfyddydau, Rhanbarth ITV Granada**

Yr ymateb cyffredinol, gan yr ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus, oedd bod cymryd rhan yng nghystadleuaeth Miliynau'r Bobl yn brofiad positif a phleserus.

Fe wnaeth y gwerthuswyr ofyn i ymgeiswyr y gorffennol ystyried nifer o themâu gan gynnwys:

- y broses ymgeisio a chefnogaeth y swyddog
- hyfforddiant cyfryngau
- ffilmio
- paru'r rhai aeth benben â'i gilydd
- ffactorau llwyddiant
- effaith cyswllt y cyhoedd ar benderfyniadau
- effaith cyswllt y cyhoedd ar brosiectau
- tegwch y broses
- cyswllt y cyhoedd mewn mwy o raglenni'r loteri.

Y broses ymgeisio a chefnogaeth y swyddog

Dywedodd 97 y cant o'r ymatebwyr bod y broses ymgeisio naill ai'n 'dda iawn' (38 y cant) neu'n 'dda' (59 y cant). Yn gyffredinol, roedd y rheini a oedd wedi profi'r broses wedi canfod bod y deunyddiau arweiniol ysgrifenedig a'r gefnogaeth ffôn a'r ymweliadau gan swyddogion grant y Gronfa Loteri Fawr yn ystod yr ail gyfnod ymgeisio yn dda iawn.

Roedd y swyddog a ddaeth i'n gweld yn gyfeillgar ac yn galonogol iawn ac yn gwneud i ni deimlo'n dda iawn ynghylch cyrraedd y cyfnod hwn.
Clwb pensiynwyr, Rhanbarth ITV Llundain

Proses ymgeisio Miliynau'r Bobl yw'r gorau yr wyf wedi dod ar ei thraws yn fy mhrofiad o ymgeisio am arian gan y Loteri ac eraill.
Awdurdod Lleol, Rhanbarth ITV West

Roedd yn adeiladol iawn. Roedd yr ymweliad safle yn ddwys ond nid fel 'brawd mawr'. Ni allwn weld bai ar ein swyddog. Roedd e bob amser ar gael ac yn rhoi gwerthusiadau clir.
Prosiect celfyddydau, Rhanbarth ITV Granada

Hyfforddiant cyfryngau

Cynigiwyd hyfforddiant cyfyngau i'r holl geisiadau ar y rhestr fer a'r rhestr wrth gefn. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn hyfforddi tair awr gyda'r nod o:

- gefnogi prosiectau wrth gysylltu â'r cyhoedd er mwyn cyflwyno eu hachos yn y ffordd orau posibl er mwyn derbyn arian
- hyrwyddo newyddion da ynghylch y Gronfa Loteri Fawr a'r Loteri Genedlaethol
- codi proffil o ddosbarthu grant y Gronfa Loteri Fawr.

Fe wnaeth y Rhanbarthau ITV ddarparu hyfforddiant cyfryngau a gafodd groeso cynnes gan yr ymgeiswyr. Roedd yr hyfforddiant yn ymdrin â meysydd megis:

- pwysigrwydd paratoi nifer fach o bwyntiau er mwyn trosglwyddo'r neges yn syml ac yn glir
- technegau cyflwyno wrth siarad
- dysgu sut i sefyll yn briodol
- agweddau meithrin hyder megis cwrdd â'r person a allai fod yn ffilmio ar y diwrnod a rhannu amheuon ac ofnau gyda phrosiectau eraill mewn sefyllfa debyg.

Aeth ein heddwas cymunedol lleol. Fe ddychwelodd yn llawn brwdfrydedd, yn wybodus ac yn hyderus.
Prosiect Ieuenctid, Rhanbarth West Country ITV

Ffilmio

Fe wnaeth tîm newyddion o'r Rhanbarth ITV drefnu ffilmio darn byr ar gyfer pob prosiect i'w ddarlledu yn ystod wythnos y gystadleuaeth. Ymwelodd criw ffilmio â'r prosiect i ffilmio'r darn byr a chafodd y prosiectau gyfle i gynnwys cefnogwyr a buddiolwyr yn y ffilm.

Canfu'r gwerthuswyr, yn gyffredinol, bod y rheini a holwyd yn llai brwdfrydig ynghylch y ffilmio na'r hyfforddiant cyfryngau, gyda sgôr cyfartalog o 'gweddol'. Serch hynny, fe fynegodd nifer sylwadau positif ynghylch y profiad o ffilmio, ac yn benodol ymdriniaeth gyfeillgar ac agored y cyfwelwyr a'r criw.

> Fe weithiodd y criw ffilmio'n dda gyda'n grŵp cleientiaid cymysg o oedolion a phlant. Roeddynt yn chwarae gyda'r plant ac yn gweithio ar ein cyflymder ni.
> **Prosiect Cymunedol, Rhanbarth ITV Meridian South**
>
> Mae'n anodd i Dîm Newyddion wneud y math hwn o ffilmio ond fe wnaethant gynrychioli ein prosiect yn dda, yn taro'r cydbwysedd yr ydym yn edrych amdano ac yn cyd-dynnu'n dda gyda'r bobl ifanc o'r ystâd a oedd yma ar y diwrnod.
> **Prosiect Chwarae, Rhanbarth ITV Llundain**

Y rheini a fynegodd anfodlonrwydd penodol gyda'r ffilmio oedd prosiectau a oedd wedi dod yn ail.

Ymhlith awgrymiadau ar gyfer gwella elfen hon ar y broses oedd rhoi arweiniad a gwybodaeth i ymgeiswyr ar sut y byddai'r ffilmio yn cael ei wneud o'r dechrau un, yn hytrach na'r cyfnod rhestr fer. Byddai hyn yn golygu bod y prosiectau wedi'u paratoi'n well at y ffilmio.

Paru'r rhai aeth benben â'i gilydd

Pan fydd ceisiadau yn cael eu rhoi ar restr fer ystyrir nifer o ffactorau:

- lledaeniad daearyddol
- cydbwysedd gwledig a threfol
- math y gweithgareddau.

Wrth baru'r prosiectau, roedd y Gronfa Loteri Fawr yn ceisio sicrhau bod y prosiectau a ddewiswyd yn gytbwys a bod y cyhoedd yn cael y cyfle i gymharu 'tebyg at ei debyg'.

Dywedodd tri chwarter o'r prosiectau a ymatebodd i'r arolwg o sampl 2007 eu bod yn hapus â'r paru rhyngddynt hwy a'r sefydliad arall a aeth allan ar Newyddion Rhanbarthol ITV. Teimlodd nifer fach nad oeddynt yn gallu mynegi barn yr un ffordd na'r llall a dim ond saith y cant a oedd yn teimlo eu bod wedi'u paru'n amhriodol.

Yn gyffredinol, roedd y rheini a holwyd yn cydymdeimlo â'r anawsterau y mae'r pwyllgorau penderfyniadau yn eu hwynebu wrth baru prosiectau, o ystyried ystod eang y prosiectau a sefydliadau sy'n gymwys i ymgeisio, a hefyd oherwydd bod y gystadleuaeth yn agored i ymgeiswyr o ardaloedd trefol a gwledig.

Ffactorau llwyddiant

Gofynnodd y gwerthuswyr i'r rhai a holwyd adnabod y ffactorau yr oeddynt yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer cyflawni llwyddiant. Yr isod yw'r pedwar ffactor mwyaf cyffredin a nodwyd gan yr ymatebwyr.

1) Marchnata i gefnogwyr

Credaf fod ein hymdrechion i annog cefnogwyr i bleidleisio yn llawer yn bwysicach na sut yr oedd ein neges wedi'i throsglwyddo ar y teledu.
Prosiect theatr cymunedol,
Rhanbarth ITV West County

2) Apêl weledol o'r cyflwyniad teledu

Mae'n rhaid i'r gwylwyr teledu ei hoffi, teimlo empathi tuag ato ac yn gweld y buddion ar gyfer pobl.
Prosiect Chwarae, Rhanbarth ITV Llundain

3) Math o sefydliad prosiect

Rydym yn grŵp gwirfoddol mewn pentref bach ac roeddem yn erbyn Cyngor Bwrdeistref ac fe wnaethom ennill. Mae un o'r bobl sydd ar ein gweithgor yn gymhellwr gwych ac fe wnaeth ddarbwyllo'r bobl bod ein prosiect ni angen yr arian yn fwy.
Prosiect adnewyddu parc,
Rhanbarth ITV Tyne Tees

4) Ffactorau lleoliad (megis trefol yn erbyn gwledig neu a oedd y prosiect ar ffin gwahanol ranbarthau ITV)

Teimlodd nifer o brosiectau y gallai eu lleoliad fod o anfantais iddynt o bosibl. Canfu'r gwerthuswyr bod y rheini mewn cymunedau gwledig yn cymryd yn ganiataol y gallai prosiectau mewn ardaloedd metropolitan mwy annog mwy o gefnogaeth, ac roedd prosiectau mewn ardaloedd trefol yn cymryd yn ganiataol y gallai prosiectau gwledig symbylu'r gymuned leol i gefnogi eu cais.

Un pryder a oedd gennym oedd bod y prosiect yr oeddem yn cystadlu yn ei erbyn wedi'i leoli mewn dinas a chanddo etholaeth fwy o bleidleiswyr posibl y mae'n haws mynd atynt. Roedd yn daith gron o 180 milltir er mwyn dosbarthu'r poster gyda'r rhif pleidleisio yn y pentrefi ar y diwrnod.
Prosiect Ieuenctid, Rhanbarth West Country ITV

Mae teyrngarwch ardal yn bwysig at lwyddiant Miliynau'r Bobl. Mae'r rhain yn arbennig o gryf mewn cymunedau gwledig.
Prosiect gwledig buddugol yn cystadlu yn erbyn prosiect mewn dinas,
Rhanbarth ITV West Country

Canfu'r gwerthuswyr nad yw'r canfyddiad bod prosiectau mewn ardaloedd trefol yn gwneud yn well na phrosiectau mewn ardaloedd gwledig yn dal dŵr. Ni ddaethom o hyd i dystiolaeth i gefnogi hyn.

Effaith cyswllt y cyhoedd ar benderfyniadau

Gofynnwyd i'r rheini a holwyd pa un yw cyswllt y cyhoedd yn rhaglen Miliynau'r Bobl yn gwneud gwahaniaeth i'r broses gwneud penderfyniadau. Teimlodd dros 80 y cant o'r ymatebwyr yn y sampl prosiect 2007 ei fod yn gwneud gwahaniaeth, gyda rhan fwyaf o'r lleill yn methu penderfynu.

Canfu'r gwerthuswyr bod y rheini a holwyd yn adnabod y gwahaniaeth rhwng rhaglen Miliynau'r Bobl a rhaglenni ariannu traddodiadol sef eu gallu i ddarbwyllo'r cyhoedd a'r cefnogwyr i bleidleisio dros y prosiect.

Teimlodd yr ymatebwyr bod cyswllt y cyhoedd yn y rhaglen yn golygu bod prosiectau cymunedol ar raddfa fach wedi'u ffafrio dros asiantaethau ar raddfa fawr fel awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau gofal sylfaenol a chymdeithasau tai.

Cododd nifer o'r rhai a holwyd y mater o ansicrwydd cynyddol a'r risg yn y broses benderfyniadau a ddaw yn sgil cyswllt y cyhoedd, yn enwedig ar gyfer yr ymgeiswyr 'proffesiynol'. Mewn geiriau eraill, mae'r rheini sy'n gyfarwydd â'r diwylliant cynnig yn gyfarwydd iawn ar sut i gyflwyno achos ar bapur i'w mantais eu hunain, ond mae beth fydd yn apelio i'r cyhoedd sy'n pleidleisio yn llawer anos ei ragfynegi. Y ffordd hon, mae cynnwys y cyhoedd yn rhoi gwell cyfle i'r prosiectau llai profiadol hynny wrth baratoi ceisiadau ariannu, o'i gymharu â phroses ymgeisio draddodiadol.

Effaith cyswllt y cyhoedd ar brosiectau

Yr ymateb gorlethol ymhlith y prosiectau buddugol a'r rhai a ddaeth yn ail oedd bod cymryd rhan yng nghystadleuaeth Miliynau'r Bobl yn brofiad positif a phleserus. Y prif fudd a adnabuwyd oedd y proffil uwch a'r enw da cynyddol yr oedd y sefydliad wedi'i sicrhau o fewn eu cymuned ac ymhlith eu partneriaid. Roedd hyn yn wir ar gyfer enillwyr a'r rhai a ddaeth yn ail.

Roedd rhai sefydliadau yn gallu defnyddio eu proffil uwch i sicrhau rhoddion neu gefnogaeth ychwanegol gan wirfoddolwyr. Ar gyfer eraill mae'n golygu eu bod bellach mewn sefyllfa i sicrhau cefnogaeth gan sefydliadau eraill, megis awdurdodau lleol, nad oeddynt wedi'u cefnogi yn y gorffennol. Er enghraifft, adroddodd grŵp cymunedol yn Rhanbarth Anglia East ITV eu bod bellach yn weithredol gysylltiedig â'r cyngor lleol, a oedd yn wahanol i'r sefyllfa flaenorol. Aeth grŵp arall a ddaeth yn ail yng nghylch 2006 o

Tegwch y broses

Ranbarth Yorkshire ITV ymlaen i sicrhau ariannu ar gyfer eu prosiect gardd synhwyraidd gan y dosbarthwr treth tirlenwi leol. Gwahoddwyd y sefydliad i wneud cais am yr arian o ganlyniad uniongyrchol i'r sylw yng nghystadleuaeth Miliynau'r Bobl.

Ym marn y gwerthuswyr aeth y rhan fwyaf o'r prosiectau i gystadleuaeth Miliynau'r Bobl gyda'u 'llygaid yn agored'. Mewn geiriau eraill, roeddynt yn ymwybodol o'r posibilrwydd o beidio ag ennill. Roedd sawl prosiect o'r farn bod y risg o fethiant ar gyfer y rhaglen (unwaith y byddent yn cyrraedd cyfnod yr ail gylch) yn ddim uwch na chais grant ar bapur traddodiadol i gyllidwr. Y farn bragmatig oedd bod Miliynau'r Bobl yn dod â chyhoeddusrwydd a sylw ar gost isel, a hynny pa un a oedd y prosiect yn llwyddiannus ai peidio. Teimlodd rhai pe baent yn aflwyddiannus yna gallai'r gwaith ar y cynllun prosiect gael ei ddefnyddio ar gyfer ceisiadau ariannu eraill, a theimlodd eraill bod natur y rhaglen yn golygu pe baent yn cyrraedd yr ail gylch roedd ganddynt gyfle cynyddol o ddylanwadu ar y canlyniad o'i gymharu â rhaglen ariannu draddodiadol.

Fe wnaeth prosiectau na wnaethant dderbyn arian gan y rhaglen nodi sawl ffactor ynghylch y gystadleuaeth a oedd yn llai positif. Yn eu plith yr oedd codi disgwyliadau ymhlith cefnogwyr y prosiect a goblygiadau o ran adnoddau o fod yn gysylltiedig â'r broses ar gyfer sefydliadau llai.

Ym mhob Rhanbarth ITV, dros bedair noson, dangoswyd ffilm fer ar bob pâr o brosiectau a rhoddwyd y cyfle i wylwyr yn y rhanbarth hwnnw bleidleisio dros bwy a ddylai dderbyn yr arian. Gwnaed hyn trwy'r prosiectau yn mynd benben â'i gilydd; y prosiect a oedd yn derbyn y mwyaf o bleidleisiau o bob pâr oedd enillydd y dydd.

Pan gawsant eu cyfweld cyn diwrnod eu pleidlais, ystyriodd dros hanner prosiectau 2007 bod Miliynau'r Bobl yn broses deg, gyda digon o gyfleoedd cyfartal i brosiectau ennill. Disgynnodd hyn i tua thraean o'r prosiectau pan gawsant eu hail gyfweld ar ôl pleidlais y cyhoedd. Teimlodd un prosiect bod sylw ar y teledu wedi camliwio nodau eu prosiect a theimlodd un arall, fel prosiect gwledig, eu bod wedi'u paru'n annheg gyda phrosiect o'r ddinas. Mynegodd dau brosiect buddugol yn y sampl hefyd beth pryder ynghylch niferoedd y pleidleisiau a fwriwyd fesul llinell ffôn ac roedd un yn amau'r broses baru.

Ceir un dyfarniad bonws hefyd ym mhob rhanbarth ITV, a gynigir i'r prosiect sy'n sgorio'r nifer uchaf o bleidleisiau yn ystod yr wythnos ond na enillodd y bleidlais benben.

Teimlodd rai prosiectau y dylid cael ryw ffurf ar 'ddyfarniad cysur' ychwanegol ar gyfer y rheini na enillodd er mwyn cydnabod yr ymdrech yr oedd sefydliadau wedi'i gwneud i gyrraedd y cyfnod terfynol ac i ddigolledu amser y staff a'r gwirfoddolwyr a oedd yn ofynnol er mwyn i'r prosiectau gyrraedd y rownd derfynol. Pan holwyd aelodau'r cyhoedd ar y pwyllgor rhanbarthol am y broses, teimlodd pedwar o bob pump o'r rheini a holwyd ei bod yn ddigon teg i brosiectau.

Cyswllt y cyhoedd mewn mwy o raglenni'r Loteri

Casgliad

Canfu'r gwerthuswyr bod mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod Miliynau'r Bobl yn fodel gadarn ar gyfer cyswllt y cyhoedd. Ychydig o brosiectau a oedd yn ymwybodol bod y cyhoedd wedi'u cynrychioli ar y pwyllgor rhanbarthol. Roedd bob un yn ystyried bod hwn yn syniad da ond yn un y dylai'r Gronfa Loteri Fawr dynnu sylw ato.

> Rydym yn teimlo y dylai mwy o raglenni gael cyswllt y cyhoedd. Mae'n rhoi esgus i chi gysylltu, rhywbeth i'w drafod, mae'n cynnwys pawb yn y sefydliad ac mae'n sicrhau bod y gymuned yn chwarae rhan.
> **Prosiect cymunedol, Rhanbarth ITV Granada**

Edrychodd y gwerthuswyr ar batrymau ac amseriad y pleidleisiau ffôn a fwriwyd dros brosiectau a chanfuwyd bod symbylu cefnogaeth leol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant. O ddadansoddi pleidleisiau, roedd cefnogwyr yn fwy tebygol na'r cyhoedd o wneud galwadau ffôn lluosog. O ddadansoddi nifer y pleidleisiau fesul llinell ffôn ac amser y dydd y gwnaed y galwadau, mae'r gwerthuswyr yn amcangyfrif bod 65 i 70 y cant o'r pleidleisiau wedi'u gwneud gan gefnogwyr a 30 i 35 y cant gan aelodau'r cyhoedd. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd ymgyrchu i brosiectau a chysylltu gyda chefnogwyr i'w hannog i bleidleisio cymaint o weithiau â phosibl. Serch hynny, nid yw pleidlais y cyhoedd yn ddi-nod a rhaid i brosiectau barhau i apelio i'r cyhoedd er mwyn ennill eu pleidleisiau.

Mae Miliynau'r Bobl yn rhaglen lwyddiannus a phoblogaidd. Yn 2007 fe wnaeth dros 150,000 o bobl fwrw ymron i 553,000 o bleidleisiau ffôn. Roedd hwn yn gynnydd o ymron i hanner ar 2006.

Rhan fawr o apêl Miliynau'r Bobl yw symlrwydd y rhaglen. Mae darpar ymgeiswyr hefyd yn hoffi'r ffaith nad oes yn rhaid iddynt ddod o hyd i arian cyfatebol a bod ganddynt yr hyblygrwydd i ddyrannu arian i gostau refeniw a chyfalaf yn unol â'u cynllun prosiect.

Teimlodd dros 80 y cant o ymatebwyr yn y sampl o brosiectau a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn 2007 bod cyswllt y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau yn golygu nad y prosiectau 'gorau' a 'mwyaf teilwng' a oedd bob amser yn ennill.

Y farn glir gan ran fwyaf y prosiectau, boed hwy'n fuddugol neu wedi dod yn ail, oedd eu bod wedi ymgeisio am arian yn gwbl ymwybodol o'r risgiau o beidio ennill ond bod y buddion yn gorbwyso'r diffygion. Ymhlith y buddion yr oedd cyhoeddusrwydd am ddim i godi proffil y prosiect ymhlith y cyhoedd, denu gwirfoddolwyr neu ariannu newydd ac effaith mwy positif ar gyswllt cymunedol lleol.

Beth nesaf?

Mae Miliynau'r Bobl yn parhau a bydd gwybodaeth ac amserlenni manwl ar y cylchoedd i ddod ar gael ar ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Bydd canfyddiadau o'r gwerthusiad yn cael eu defnyddio i hysbysu cylchoedd pellach o Filiynau'r Bobl a bydd y ddysg yn cael ei rhannu gydag ymgeiswyr yn y dyfodol.